

**VALE of GLAMORGAN**



**BRO MORGANNWG**

**Pecyn Canllaw a Chais  
ar gyfer Gorchmynion  
Llwybrau Cyhoeddus**

**dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref  
1990**



# Canllaw i'r Weithdrefn ar gyfer Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

Nod y canllaw hwn yw egluro'r weithdrefn ar gyfer Dargyfeiriadau a Diddymiadau y gwneir cais amdanynt dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (DCGTh) Maent yn weithredol pan fo angen:

- Dod â llwybr i ben, neu ei ddargyfeirio, ar gyfer datblygiad yn sgil rhoi caniatâd cynllunio dan Ran III y DCGTh
- Dod â llwybr i ben, neu ei ddargyfeirio, ar gyfer datblygiad yn sgil adran o'r llywodraeth yn rhoi caniatâd cynllunio dan Ran III y DCGTh

Dylid nodi mai dim ond pan nad yw datblygiad wedi ei gwblhau y mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn briodol. Os yw datblygiad eisoes wedi ei gwblhau ac wedi adeiladu'n anghyfreithlon dros lwybr, dylid gwneud cais am ddargyfeiriad dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

Nid yw rhoi Caniatâd Cynllunio, ynddo'i hun, yn rhoi caniatâd i gau na dargyfeirio hawl tramwy'r cyhoedd. Nid yw chwaith yn golygu y bydd cais i newid y Rhwydwaith Hawl Tramwy Cyhoeddus o anghenraid yn llwyddo.

Mae rhwystro Hawl Tramwy Cyhoeddus heb gael gorchymyn gan y Cyngor yn drosedd y gellir eich dirwyo neu erlyn amdano a gellir hefyd ddymchwel gwaith adeiladu.

## Wrth wneud cais am orchymyn llwybr cyhoeddus mae'n bwysig ystyried y canlynol:

### Tirfeddiannaeth

Y peth cyntaf oll i'w ystyried cyn gwneud cais am orchymyn llwybr cyhoeddus yw eich bod chi, fel yr ymgeisydd, yn berchen ar yr holl dir y bydd y llwybr wedi'i ddargyfeirio yn ei groesi. Os nad yw hyn yn wir, rhaid i chi geisio caniatâd ysgrifenedig perchennog y tir cyn y gallwch barhau. Ni all y Cyngor Sir brosesu eich cais heb hyn.

### Y Profion Cyfreithiol

Mae deddfwriaeth yn gofyn bod profion penodol yn cael eu hystyried ar gyfer gorchmynion llwybrau cyhoeddus.

### Y Profion Cyfreithiol ar gyfer Gorchmynion Cynllunio Gwlad a Thref

Cyn gwneud gorchymyn rhaid bod Awdurdod yn fodlon bod:

- Y gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn i ddatblygiad fynd yn ei flaen yn unol â chaniatâd cynllunio sydd wedi ei roi.
- Yr anfantais neu'r golled tebygol i aelodau'r cyhoedd neu berchnogion tir gerllaw wedi ei bwyso yn erbyn manteision cau neu ddargyfeirio.
- Ystyriaeth wedi ei rhoi i'r angen i ddarparu ffordd fawr arall
- Y datblygiad sy'n effeithio ar y llwybr heb ei wneud
- Y llwybr a ddangosir ar y gorchymyn fel y llwybr arall ddim yn Hawl Tramwy Cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli

Wrth fodloni'r gofynion uchod, bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried:-

- Natur y gweithgareddau a awdurdodir gan y caniatâd cynllunio (yn ddatblygiad gweithredol ac yn newid defnydd) ac a ydynt yn gydnaws ai peidio â chadw hawliau priffordd dros y briffordd dan sylw.
- Budd y cyhoedd cyffredinol yn cynnwys unrhyw golledion ariannol posibl i aelodau'r cyhoedd.
- Yr effaith benodol ar rai aelodau o'r cyhoedd, megis preswylwyr eiddo sy'n gyffiniol â'r briffordd.
- Bod y ffactorau a ystyrir yn wahanol i'r rhai a ystyriwyd adeg rhoi'r caniatâd cynllunio gwreiddiol;
- Effaith y cynigion ar anghenion cadwraeth a bioamrywiaeth (os yw hyn yn hysbys cyn ymgynghoriad, ymdrinnir ag ef fel arfer drwy ei gynnwys yng nghylch ymgynghori cyn-orchymyn Ecollegol a/neu CFC).

Mae gan yr awdurdod bŵer i ofyn i'r ymgeisydd dalu cost y gorchymyn a chost creu llwybr newydd, ynghyd ag unrhyw iawndal a allai fod yn daladwy.

### **Ystyriaethau Dylunio a Datblygu**

Ni ddylid cychwyn ar waith ar safle tan i unrhyw orchmynion cyfreithiol angenrheidiol i newid y rhwydwaith fod wedi eu creu a'u cadarnhau gan y Cyngor.

Dylid osgoi defnyddio heolydd ystâd cymaint â phosibl. Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio llwybrau ystâd drwy dir agored neu dir sydd wedi ei dirlunio i ffwrdd o draffig cerbydol.

Dylid ystyried materion yn ymwneud â diogelwch a hyder personol yn gysylltiedig â rhyw person ac anabledd, yn cynnwys materion yn ymwneud â namau synhwyrol, meddyliol a chorfforol wrth ddylunio cynllun Dylai llwybrau troed a llwybrau ale fod yn llydan ac wedi eu goleuo'n dda, heb fannau cuddio, gan ddilyn llwybr uniongyrchol pryd bynnag y bo'n bosibl.

Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai llwybrau troed fod yn 2 fetr o led a dylai llwybrau ceffyl fod yn 3 metr o led. Fodd bynnag, efallai y bydd angen llwybrau lletach mewn datblygiadau newydd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod mwy o

ddefnydd ar y llwybrau hyn a byddai'n sicrhau bod defnyddwyr Hawl Tramwy Cyhoeddus â digon o le i basio'i gilydd a bod ymdeimlad o le.

Pan fo HTC yn cael ei adlinio neu amnewid dylai'r un newydd fod o leiaf cystal ei wneuthuriad â'r gwreiddiol, ond pan wyddys y bydd mwy o ddefnydd ar yr un newydd, efallai y bydd angen arwyneb a chyfleusterau ychwanegol. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen HTW i safon fabwysiadu'r Cyngor. Ymhob achos, bydd hyn yn fater i'w drafod rhwng y darpar ddatblygwr, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) ac Awdurdod y Priffyrdd.

Dylid gofalu am anghenion pobl anabl o'r cychwyn cyntaf, drwy ystyried yn ofalus arwynebau, lled a graddiant.

### **Gwaith sydd angen ar Lwybrau yr effeithir arnynt.**

Os ydych chi'n credu yr hoffech godi clwyd neu gamfa neu gelfi stryd eraill nodwch hyn ar y cynllun sydd wedi ei atodi at eich ffurflen gais gan y byddai eu codi a hwythau heb eu nodi yn y gorchymyn yn cael ei ystyried yn Rhwystr.

Mae Mynediad i Bawb yn cael ei nodi fel egwyddor allweddol yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Bro Morgannwg a strwythurau wedi eu hawdurdodi, yn y drefn, bwlch, clwyd, camfa. Rhoddir caniatâd i strwythurau ar sail mynediad sydd wedi ei rwystro leiaf pan mai bylchau fydd man cychwyn strwythurau newydd os na fydd y tir yn cynnwys anifeiliaid megis defaid, ceffylau, moch neu wartheg, neu glwydi pan fo angen cadw anifeiliaid o fewn y tir. Ni fydd y Cyngor Sir yn cytuno i strwythurau megis camfeydd ar lwybr newydd oni bai ei bod yn amhosibl gosod unrhyw beth arall yn y tir dan sylw. Gellir trafod y mathau o gelfi sy'n addas gyda Swyddog Hawl Tramwy.

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr dalu 100% o gost rhesymol pob pont droed neu bont geffylau newydd a'r gost gosod. Bydd strwythurau o'r fath fel arfer yn cael eu darparu a'u codi gan y Cyngor Sir neu ei asiantaeth cymwys. Pan fo strwythur yn cael ei godi i safon uwch ar gais yr awdurdod bydd y Cyngor Sir yn talu'r gost ychwanegol.

Os yn gwneud cais am ddiddymu llwybr, nodwch hefyd a oes strwythurau eraill, megis pontydd, yno. Bydd y Cyngor Sir yn trefnu eu bod yn cael eu symud a'u defnyddio ar ran arall o'r rhwydwaith pan fo hynny'n bosibl.

### **Cynllun y Dargyfeiriad**

Wrth ymgeisio am ddargyfeiriad, bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu cynllun yn dangos y cynnig, wrth gyflwyno'r cais. Dylai'r cynllun fod ar raddfa naill ai 1:1250 neu 1:2500 a rhaid iddo fod yn fanwl gywir. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cynhyrchu cynllun sy'n darlunio'r cynllun yn gywir gan y gallai newid y cynllun yn nes ymlaen arwain at gostau ychwanegol i'r ymgeisydd ac oedi yn y broses.

## Lled Llwybrau Newydd

Mae'n ofynnol gan Gyngor Caerdydd fod lled rhesymol ar gael ar gyfer llwybrau a fyddai'n galluogi dau ddefnyddiwr i basio'i gilydd a bod yn gyfleus i beiriannau torri. Yn achos llwybr troed newydd, ystyrir hyn fel arfer yn 2 fetr o leiaf. Yn achos llwybr ceffylau, 3 metr.

## Dargyfeirio Llwybrau sy'n Croesi Caeau

Pan yn bosibl dylid gosod llwybr sydd wedi ei ddargyfeirio mewn modd sy'n osgoi'r angen i'w aredig neu amharu ar yr wyneb mewn ffordd arall.

Sylwch bod y Ddeddf Priffyrdd yn gwahardd aredig llwybr troed neu lwybr ceffylau sy'n rhedeg wrth ochr talar cae neu dir caeedig, ac amharu arno mewn unrhyw ffordd arall. Ni ddylid byth aredig Cilffyrdd Cyfyngedig na Chlirffyrdd sydd ar agor i draffig.

Efallai y bydd gofyn i chi fynd i gytundeb i gynnal arwyneb unrhyw lwybr sydd wedi ei ddargyfeirio i dalar cae yn ogystal â chydymffurfio gyda'ch rhwymedigaethau i dorri cloddiau a symud toriadau oddi yno er mwyn sicrhau y cedwir lled y llwybr.

## Ffioedd

Mae'r cyngor yn codi ffi am waith gweinyddol ynghlwm wrth ddelio gyda chais, yn unol â *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Adennill Costau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus) 1993 (fel y'i diwygiwyd)*. Golyga hyn y bydd yn rhaid i chi dalu'r **gwir gostau** gan gynnwys costau hysbysebu. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hepgor, neu hepgor yn rhannol, gostau pan ystyrir bod hynny er budd y cyhoedd.

Byddwch yn derbyn anfoneb ar dri cham: (Rhaid talu o fewn 30 niwrnod i ddyddiad yr anfoneb):

Cam 1. Cyn-cyhoeddi (ffi anadaladwy)

Cam 2. Cyhoeddi

Cam 3. Cadarnhau'r gorchymyn

Mae'r ffi ar bob cam yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos ac mae'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amser a dreulir yn prosesu'r cais. Mae amcangyfrif o'r raddfa ffioedd ar gyfer cais fel y'i nodir yn yr Atodlen Costau a atodir. Amlinellir costau ychwanegol yn yr Atodlen Costau.

## Amserlen

Ar gyfartaledd mae cais yn cymryd dros naw mis o'r cais gwreiddiol i'r cadarnhad. Fodd bynnag, os cyflwynir y mater i Lywodraeth Cymru a'i Arolygydd yn galw ymchwiliad cyhoeddus neu wrandawriad, gallai fod yn hirach.

**Sylwch fod y llwybr sydd yno eisoes yn dal i fodoli a rhaid ei fod ar gael i'w ddefnyddio tan i Orchymyn Llwybr Cyhoedd gael ei gadarnhau.**

## **Os oes Gwrthwynebiad i'r Gorchymyn**

Mae'r ymgynghoriad cychwynnol yn cael ei gynnal i geisio'i gwneud yn llai tebygol y bydd gwrthwynebiad yn y pen draw.

Rhaid gwrthwynebu'n ffurfiol yn ysgrifenedig i'r Cyngor Sir o fewn 28 diwrnod wedi cyhoeddi bod hysbysiad gorchymyn wedi ei wneud. Os derbynnir gwrthwynebiad bydd swyddog yn dechrau ar sgwrs gyda'r sawl sy'n gwrthwynebu. Os yw'r gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn, bydd y Cyngor yn anfon y gorchymyn i Lywodraeth Cymru (LIC) i benderfynu arno ar ôl ymgynghori gyda'r ymgeisydd a'r sawl sy'n gwrthwynebu. Bydd LIC yn penderfynu a oes angen ymgynghoriad cyhoeddus neu a ellir cychwyn gweithdrefnau gwrandawriad neu sylwadau ysgrifenedig.

Bydd arolygydd annibynnol a apwyntir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi ei b/phenderfyniad i gadarnhau, peidio â chadarnhau neu addasu'r Gorchymyn ar ôl ystyried yr achos.

## **Gweithdrefnau ynghlwm wrth Orchymyn Llwybr Cyhoeddus dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref**

Mae'r weithdrefn ar gyfer delio gyda dargyfeirio neu ddiddymu llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn ddyrys a gall gymryd cryn amser. Yn fras, dyma'r camau:

1. Trafodaethau anffurfiol gyda swyddogion hawliau tramwy'r cyngor i drafod y cynnig, ffurflen gais, atodlen costau.
2. Derbyn eich cais terfynol, yn cynnwys cyfeirnod cynllunio, tystiolaeth o berchnogaeth tir a chydysyniad perchennog tir pan fo angen.
3. Creu map ymgynghori ac amserlen y gorchymyn a gynigir.
4. Ymgynghoriadau cyn-orchymyn gyda grwpiau defnyddwyr a chynghorau lleol.
5. Trafodaethau ynghylch unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol.
6. Pan fo angen, bydd ymweliad â'r safle.
7. Derbyn cadarnhad bod caniatâd cynllunio wedi ei roi.
8. Creu map, atodlen, hysbysiad cyfreithiol a gorchymyn.
9. Ystyried adroddiad ar y cais gan y Cyngor i benderfynu gwneud y gorchymyn ai peidio
10. Paratoi a chyhoeddi'r adroddiad ac yna 28 niwrnod o hysbysebu ar y safle ac yn y wasg.
11. Trafodaethau ar unrhyw wrthwynebiadau i'r gorchymyn.
12. Os na ellir datrys y gwrthwynebiadau bydd y gorchymyn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a byddan nhw'n penodi arolygydd i benderfynu ar y gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau" gorchymyn. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall yr arolygydd benderfynu

ar sail cyfnewid gohebiaeth, neu gellir mynd â'r achos i wrandawriad neu ymchwiliad cyhoeddus.

13. Os penderfynir y dylid cadarnhau'r gorchymyn, cyhoeddir hysbysiad o'r penderfyniadau yn y wasg ac ar y safle. Ar y cam hwn, rhaid i chi ddarparu llwybr i'r safon angenrheidiol. (Sylwer ei bod hi'n bosibl y gallai'r Arolygydd benderfynu peidio â chadarnhau'r gorchymyn).
14. Bydd swyddogion y cyngor yn ymweld â'r safle i sicrhau darpariaeth foddhaol ar gyfer y llwybr newydd.

### **Cofiwch nad oes Gwarant**

Ni all y Cyngor Sir warantu y bydd unrhyw gais yn mynd ymlaen i fod yn orchymyn, ac ni all y Cyngor Sir roi sicrwydd y bydd pob ymgeisydd yn llwyddiannus yn erbyn gwrthwynebiad.

*Rhaid i ymgeiswyr sylweddoli y gallai costau godi hyd yn oed os na fydd y Gorchymyn yn llwyddo yn y pen draw.*

Bydd y Cyngor yn ceisio datrys unrhyw wrthwynebiad os yn bosibl, a bydd ymgeiswyr yn gallu tynnu eu cais yn ôl cyn i Orchmynion sydd â gwrthwynebiad gael ei hanfon at LIC i benderfynu arnynt. Yn yr amgylchiadau hyn dim ond y costau sydd wedi codi at yr adeg hwn y bydd y Cyngor Sir hawlio costau.

**GWNEIR POB YMDRECH BOSIBL I SICRHAU CYWIRDEB Y WYBODAETH A  
RODDIR, OND NID BOD YN DDATGANIAD TERFYNOL AR Y GYFRAITH YW  
NOD Y CANLLAW HWN, AC NI ELLIR DERBYN CYFRIFOLDEB DROS  
WALLAU NEU UNHRYW WYBODAETH GOLL.**



## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Atodlen Costau

Cam 1 Cyn cyhoeddi		
Eitem	Manylion	Amcangyfrif o'r gost
1. Derbyn y cais	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwirio bod y cais wedi ei wneud dan y ddeddfwriaeth gywir</li> <li>Gwirio'r ffurflen gais ac addewid i dalu costau</li> <li>Creu ffeil achos a'i rhoi ar y system gyfrifiadur</li> <li>Anfon llythyr cydnabod derbyn cais</li> </ul>	£45
2. Ymchwilio i hanes a statws hawl tramwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwirio'r llwybr ar Fap Terfynol a datganiad</li> <li>Gwirio ffeil HTC – oes gorchmynion blaenorol, materion fyddai'r effeithio ar lwyddiant neu aflwyddiant cais</li> <li>Cadarnhau perchnogaeth tir, anfon am deitlau y Gofrestrfa Dir os ddarperir neu os yw'r rhai a ddarparwyd yn hŷn na 3 mis.</li> </ul>	£190
3. Ymweld â'r Safle gyda'r ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefnu i gwrdd â'r ymgeisydd ar y safle</li> <li>Ymweliad safle i baratoi map yn dangos llwybrau hen/newydd</li> <li>Ymweliad â'r safle – gwirio dichonolrwydd y llwybr, nodi'r angen am glwydi/camfeydd ac ati</li> <li>Anfon llythyr at ymgeisydd i gadarnhau unrhyw waith y cytunwyd arno yn ystod yr ymweliad â'r safle.</li> </ul>	£150
4. Ymgynghoriad cyn-orchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Addasu'r rhestr ymgynghori statudol i sicrhau yr ymgynghorir â'r aelod Ward, Cyngorwyr Cymuned, perchnogion tir gerllaw ac ati cywir.</li> <li>Paratoi'r amserlen ymgynghori</li> <li>Paratoi'r map ymgynghori</li> <li>Paratoi llythyr ymgynghori, anfon i'r rhestr ymgynghori.</li> </ul>	£130
5. Dadansoddi ymatebion ymgynghoriad cyn-orchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydnabod derbyn unrhyw ymatebion, casglu ymatebion ynghyd, ateb ymholiadau.</li> </ul>	£70
6. Asesu ymhlygiadau Cyfreithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgynghori gyda Swyddogion Cyfreithiol.</li> </ul>	£30
7. Paratoi adroddiadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Manylu ar gefndir y cais, cynnig a phroffion cyfreithiol.</li> </ul>	£110

Pwyllgor/ Adroddiad pwerau wedi eu dirprwyo	<ul style="list-style-type: none"> <li>Paratoi'r map Gorchymyn ac Atodlen drafft. Addasu'r map ymgynghori cyn-ymgynghori i ddarparu map gorchymyn drafft</li> <li>paratoi amserlen ddrafft</li> <li>Paratoi adroddiad pwyllgor/pwerau wedi eu dirprwyo</li> <li>Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor/Cyfarwyddwr, hysbysu'r ymgeisydd am gyflwr eu cais.</li> </ul>	
8. Creu Gorchymyn a'i baratoi i'w selio	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gorchymyn drafft</li> <li>Gyrru'r Gorchymyn, map ac atodlen yn eu blaen i'r Adran Gyfreithiol i selio'r Gorchymyn</li> </ul>	£60

***Ymgeisydd yn cael ei anfonebu ar y cam hwn***  
**Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Atodlen Costau – parhad**

<b>CAM 2. Cyhoeddi'r Gorchymyn</b>		
<b>Cam</b>	<b>Manylion</b>	<b>Amcangyfrif o'r gost</b>
9. Llythyr i'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw	<ul style="list-style-type: none"> <li>Anfon copi o'r Gorchymyn a dogfennau cysylltiol gyda llythyr eglurhaol i bawb ar y rhestr ymgynghori statudol.</li> </ul>	£85
10. Hysbysebu Gwneud Gorchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu hysbysiad safle a hysbysiad i'r wasg</li> <li>Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos yn y wasg</li> <li>Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar wefan y Fro</li> <li>Ymweld â'r safle – gosod hysbysiadau safle.</li> </ul>	£1030
11. Ymweliad â'r safle	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod hysbysiadau safle yn eu lle ar bwynt canol yr ymgynghoriad</li> </ul>	£85
12. Cau'r cyfnod ymgynghori	<ul style="list-style-type: none"> <li>Casglu ymatebion i'r hysbysebion ynghylch gwneud y Gorchymyn at ei gilydd a phenderfynu a all yr Awdurdod gadarnhau'r Gorchymyn neu a oes angen cyfeirio'r achos i'r Arolygydd Cynllunio ar gyfer penderfyniad.</li> </ul>	£30

***Ymgeisydd yn cael ei anfonebu ar y cam hwn***

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Atodlen Costau – parhad

<b>Cam 3. Cadarnhau'r gorchymyn</b>		
<b>Cam</b>	<b>Manylion</b>	<b>Amcangyfrif o'r gost</b>
13 Cadarnhau'r Gorchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gyrru'r Gorchymyn, map ac atodlen yn eu blaen i'r Adran Gyfreithiol ar gyfer cadarnhad.</li> </ul>	£30
14. Llythyr i'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw	<ul style="list-style-type: none"> <li>Anfon copi o'r Gorchymyn a dogfennau cysylltiol gyda llythyr eglurhaol i bawb ar y rhestr ymgynghori statudol.</li> </ul>	£85
15 Hysbysebu cadarnhad o'r Gorchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Creu hysbysiad safle a hysbysiad i'r wasg</li> <li>Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos yn y wasg</li> <li>Trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar wefan y Fro</li> <li>Ymweld â'r safle – gosod hysbysiadau safle.</li> </ul>	£1030
16. Cysylltu â'r ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn i'r ymgeisydd i sicrhau bod gweithiau ymarferol y cytunwyd arnynt gynt wedi eu cwblhau</li> </ul>	£15
17. Ymweliad â'r safle	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwirio bod hysbysiadau yn eu lle yn y safle</li> </ul>	£85
18. Ardystio'r gwaith a chwblhau'r gorchymyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu â pherchennog y tir a gofyn am gyfarfod safle</li> <li>Ymweld â'r safle i wirio bod y gwaith ymarferol i gyd wedi ei wneud</li> <li>Tynnu Tystysgrif Cadarnhau at ei gilydd</li> <li>Anfon copi o'r Gorchymyn a'r Tystysgrif Cwblhau i'r Arolwg Ordians</li> <li>Anfon copi o'r Dystysgrif Cwblhau i'r ymgeisydd a phob perchennog/preswlydd</li> </ul>	£155

Os derbynnir gwrthwynebiad i wneud Gorchymyn bydd yr achos yn cael ei anfon ymlaen at Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer penderfyniad. Ni fydd ffioedd yn cael eu codi mewn perthynas â'r broses hon. Os bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cadarnhau'r Gorchymyn bydd yr Awdurdod yn parhau â'r broses o bwynt 14 ac yn codi ffioedd o'r pwynt hwnnw ymlaen.

### Ymgeisydd yn cael ei anfonebu ar y cam hwn

## Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Atodlen Costau – parhad

Ffioedd Ychwanegol		
Eitem	Manylion	Cost
Llythyrau/galwadau ffôn	<ul style="list-style-type: none"><li>Llythyrau sy'n ychwanegol at yr uchod</li></ul>	£30.00 y llythyr
Ymweliadau â'r safle	<ul style="list-style-type: none"><li>Ychwanegol at yr uchod.</li></ul>	£75, cost yn dibynnu ar y lleoliad
Ymweliadau'r Is-Bwyllgor Hawliau Tramwy â'r Safle	<ul style="list-style-type: none"><li>Yn ychwanegol at yr uchod yn ôl yr angen, llythyrau sy'n ychwanegol at yr uchod</li></ul>	£200
<p>1. Y gost ar gyfer gorchymyn nad oed gwrthwynebiad iddo ar gyfartaledd yw £3400</p> <p>2. Y gost gyfartalog ar gyfer gorchymyn sy'n derbyn gwrthwynebiad yw £3750 (yn cynnwys ymweliad yr Is-Bwyllgor â'r safle).</p>		

### Sylwer

Bydd cost unrhyw waith ymarferol a wneir gan yr Awdurdod ar ran yr ymgeisydd yn cael ei basio'n ei flaen yn llawn i'r ymgeisydd a bydd ar ben yr hyn a nodir yn yr Atodlen Costau.



## Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfa'r Dociau  
Dociau y Barri  
Y Barri  
CF63 4RT

# DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GORCHYMYN/MYNIION LLWYBR CYHOEDDUS Ffurflen Addewid i Dalu Costau

Rwyf yn addo i dalu'r costau fydd yn codi o brosesu'r Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus ar gyfer:

Rhif/au Hawl/iau Tramwy Cyhoeddus

Cymuned

Deallaf mai'r gwir gost a ddigwydd wrth i'r Cyngor brosesu'r cais yn ôl y drefn anodir yn yr Atodlen Costau a Chanllaw Gweithdrefnau Gorchymynion Llwybrau Cyhoeddus fydd y gost. Deallaf y bydd yn rhaid i fi dalu'r costau hyn mewn tri rhandaliad.

Deallaf y byddaf yn talu costau gwneud unrhyw waith angenrheidiol i ddarparu llwybr newydd y mae'r Cyngor yn hapus ag ef, a chytunaf i'w talu. Pan fo cytundeb y bydd yr awdurdod neu ei asiantau yn gwneud unrhyw waith ac yn darparu unrhyw gelfi (gan gynnwys pontydd) ar ran y cais hwn, deallaf y byddaf yn cael fy anfonebu 100% am y gwir gostau ar gyfer y celfi a'u gosod (oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan Gyngor Bro Morgannwg). Byddaf yn cael fy anfonebu pan fydd unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei gwblhau.

Deallaf hefyd y bydd yn rhaid i fi dalu unrhyw iawndal a allai godi yn sgil dargyfeirio/creu/diddymu llwybr i dir neu yn effeithio ar dir nad yw dan reolaeth yr ymgeisydd.

Enw (llythrennau  
bras):

Llofnod:

Cyfeiriad:  
(ar gyfer  
anfonebu)

Dyddiad:

---

---

---

---

---

---



Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, Adran 257  
**CAIS AM ORCHYMYN I DDARGYFEIRIO'N  
 BARHAOL YR HOLL HAWL DRAMWY  
 GYHOEDDUS NEU RAN OHONI**

Dylid ateb y cwestiynau canlynol mor llawn â phosibl a dychwelyd y ffurflen i'r Swyddog Hawl Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, y Barri, CF63 4RT.

Rhaid i chi hefyd anfon:

1. Dau gopi o'r cynllun, heb fod yn llai na 1:2500, yn dangos yr Hawl Tramwy Cyhoeddus dan sylw a llinell y dargyfeiriad wedi ei nodi'n glir, ynghyd â manylion perchennog y tir.
2. Cytundeb unrhyw berthnogiion tir/preswylwyr perthnasol i'r cynnig.
3. Ffurflen "Addewid i Dalu Costau" wedi ei llofnodi.

**ADRAN A: CYFFREDINOL**

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd

- a) Enw
- b) Cyfeiriad
- c) Rhif ffôn cyswllt

Enw a chyfeiriad asiant (cwblhewch ddim ond os yw'n berthnasol)

- a) Enw
- b) Cyfeiriad
- c) Rhif ffôn
- d) Galwedigaeth

Enw a chyfeiriad perchennog/perchnogion y tir y naill ochr a'r llall i'r Llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus i'w ddargyfeirio.

- a) Enw
- b) Cyfeiriad

Os nad chi, yr ymgeisydd, sy'n berchen ar tir y bydd rhan o'r llwybr newydd, neu'r llwybr cyfan, yn rhedeg arni, ydych chi wedi cael cydsyniad perchennog/perchnogion y tir yn ysgrifenedig? YDW / NAC YDW (Atodwch os ydych)

- a) Enw
- b) Cyfeiriad

Ydych chi wedi cael cydsyniad unrhyw Brydleswr neu Denant neu Breswlydd?

YDW/ NAC YDW (Atodwch y cydsyniad os ydych)

Enw'r Prydleswr, Preswlydd neu Denant:

Cyfeiriad:

**ADRAN B: HAWL(IAU) TRAMWY CYHOEDDUS I'W DARGYFEIRIO**

Enw'r Gymuned neu Gymunedau y mae'r llwybr ynddo neu ynddynt:

Rhif(au) yr Hawl(iau) Tramwy Cyhoeddus fel y'u nodir ar y Map Terfynol (os yn hysbys).  
..... o Gyfeirnod Grid AO (pan mai dim ond un llwybr sydd  
dan sylw) ..... i Gyfeirnod Grid AO .....

Disgrifiad(au) cyffredinol o'r llwybr(au)

Statws: Mae'r llwybr(au) yr effeithir arno/arnynt yn llwybr troed/llwybr ceffylau/clirffordd gyfyngedig (dilewch y term nad yw'n berthnasol)

Rhowch enw(au) y papur(au) newydd a ddosberthir yn yr ardal.

**ADRAN C: RHESYMAU DROS Y DARGYFEIRIAD**

Cais Cynllunio Rhif:

Dyddiad y bydd Gwaith yn Dechrau:

## ADRAN D: DATGANIAD

(Darllenwch yn ofalus, newidiwch yn ôl yr angen ac yna ei lofnodi)

1. (Dilëwch y datganiad hwn os nad yw'n berthnasol) Fi/Ni sy'n berchen ar y tir sydd ag ymyl coch yn y cynllun sydd wedi ei atodi yr wyf i/yr ydym ni wedi ei lofnodi a'i ddyddio.
2. Rwyf i/Rydym ni wedi darllen a deall y nodiadau canllaw sydd wedi eu hatodi at y cais hwn. Rwyf i/Rydym ni yn cydymffurfio gyda'r amodau canlynol mewn perthynas â'r cais hwn:
  - a. Rhaid i'r llwybr gwahanol a gynigir fod o leiaf yr un hyd â'r llwybr y mae'n cymryd ei le a chael arwyneb cystal os nad gwell.
  - b. Rhaid i'r llwybr a gynigir gael ei greu i foddhad Cyngor Sir Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Prifffyrdd.
  - c. Rhaid i leoliad a math unrhyw bontydd, camfeydd, clwydi neu ffensys newydd gael eu cytuno gyda'r Cyngor Sir cyn eu codi a'u cynnal ar draul yr ymgeisydd ei hun yn y dyfodol (oni nodir yn wahanol mewn ysgrifen gan y Cyngor Sir).
  - d. Bydd unrhyw waith draenio angenrheidiol yn cael ei wneud ar draul yr ymgeisydd a'i greu i safon sy'n dderbyniol gan y Cyngor Sir.
  - e. Rhaid gosod arwyddion enw a chyfeiriad y llwybr newydd mewn ffordd sy'n dderbyniol gan y Cyngor.
3. Os bydd y Cyngor yn cytuno i wneud y gorchymyn ar gyfer dargyfeirio'r llwybr(au) byddaf i/byddwn ni yn gwneud unrhyw waith ar y llwybr a bennir gan y Cyngor Sir, ar ein traul ein hunain, i ddod â'r llwybr i gyflwr addas ar gyfer defnydd y cyhoedd ar adeg pan ellir cadarnhau'r gorchymyn dargyfeirio.
4. Rwyf i/Rydym ni yn deall na roddir unrhyw ganiatâd i ddargyfeirio Hawl Tramwy oni bai a than i Orchymyn gael ei wneud a'i gadarnhau a bod cadarnhad a hysbysiad o'i wneud wedi ei gyhoeddi.
5. Rwyf i/Rydym ni yn datgan nad yw'r Hawl(iau) Tramor a ddargyfeirir yn cael ei/eu rhwystro mewn unrhyw ffordd ac y bydd/byddant ar gael at ddefnydd y cyhoedd ac na fydd/fyddant yn cael eu rhwystro cyn i'r Gorchymyn gael ei weithredu.
6. Rwyf i/rydym ni yn cadarnhau na fydd unrhyw ran o'r Hawl Tramwy i'w dargyfeirio yn cael ei rhwystro ar unrhyw adeg yn sgil gwaith ynghlwm wrth y Cais Cynllunio cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.



7. Rwyf i/rydym ni yn addo y bydd unrhyw lwybr newydd a ddarperir yn barod i'w ddefnyddio cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.
  
8. Pan wneir y Gorchymyn rhaid iddo nodi'r amser fydd ei angen ar gyfer gweithredu'r dargyfeiriad(au) (*erbyn pa ddyddiad y bydd y llwybrau newydd ar gael gennych?*)  
Yr amser sydd ei angen yw \_\_\_\_\_ wythnos
  
9. Rwyf i/rydym ni yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth a'n cred bod y manylion a roddir yn wir ac yn gywir ac ymgeisiaf drwy hyn i ddargyfeirio'r llwybr(au) y rhoddwyd manylion amdanynt uchod.

Llofnod:

Dyddiad:





Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, ADRAN 257  
**CAIS AM ORCHYMYN I DDIDDYMU’N BARHAOL  
 HOLL HAWL DRAMWY GYHOEDDUS NEU RAN  
 OHONI**

Dylid ateb y cwestiynau canlynol mor llawn â phosibl a dychwelyd y ffurflen i: Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Sir Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri, CF63 4RT.

Rhaid i chi hefyd anfon:

1. Dau gopi o gynllun yn dangos yr Hawl Tramwy dan sylw gyda llinell y diddymiad wedi ei nodi'r glir.
2. Dylech hefyd nodi ar un o'r cynlluniau fanylion perchnogaeth tir.  
Cytundeb unrhyw berchnogion tir/preswylwyr perthnasol i'r cynnig.
3. Ffurflen "Addewid i Dalu Costau" wedi ei llofnodi.

**ADRAN A: CYFFREDINOL**

Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd

- a) Enw
- b) Cyfeiriad
- c) Rhif ffôn/ffôn symudol

Enw



a chyfeiriad asiant (Cwblhewch ddim ond os yw'n berthnasol)

- a) Enw
- b) Cyfeiriad
- c) Rhif ffôn/ffôn symudol
- d) Galwedigaeth

Ai chi yw unig berchennog yr holl lwybr i'w gau? IE/NAGE

Os "Nage", ydych chi wedi cael caniatâd y perchennog/perchnogion tir mewn ysgrifen?

YDW/NAC YDW Os ydych, atodwch.

Rhowch enw a chyfeiriad perchennog/perchnogion y tir y mae'r Hawl(iau) Tramwy Cyhoeddus i'w diddymu yn teithio drosto.

- a) Enw
- b) Cyfeiriad

Ydych chi wedi cael cydsyniad unrhyw Brydleswr neu Denant neu Breswlydd i'r cynnig diddymu? YDW/ NAC YDW Atodwch y cydsyniad os ydych

- a) Enw'r Tenant, Prydleswr, Preswlydd
- b) Cyfeiriad

Enw a chyfeiriad perchennog/perchnogion y tir y naill ochr a'r llall i'r Llwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus i'w ddi-ddymu.

- a) Enw
- b) Cyfeiriad

### **ADRAN B: HAWL(IAU) TRAMWY CYHOEDDUS I'W D/DDIDDYMU**

Enw'r Gymuned neu Gymunedau y mae'r llwybr ynddo neu ynddynt:

Rhif(au) yr Hawl(iau) Tramwy Cyhoeddus fel y'u nodir ar y Map Terfynol (os yn hysbys).

*(Pan mai dim ond un llwybr sydd dan sylw)* O Gyfeirnod Grid AO ..... i Gyfeirnod Grid AO .....

Disgrifiad(au) cyffredinol o'r llwybr(au)

Statws: Mae'r llwybr(au) yr effeithir arno/arnynt yn llwybr troed/llwybr ceffylau/clirffordd gyfyngedig (dilewch y term nad yw'n berthnasol)

Rhowch enw(au) y papur(au) newydd a ddsberthir yn yr ardal.

### **ADRAN C: HYD YR HAWL(IAU) CYHOEDDUS I'W NEILLTUO**

Oes llwybr newydd i'w neilltuo yn lle'r llwybr(au) presennol? OES/NAC OES

Os nad yw'r ymgeisydd yn berchen neu'n rheoli'r tir i'w neilltuo, ydy ef/hi wedi cael cydsyniad y perchennog/perchnogion? YDY / NAC YDY

- a) Enw
- b) Cyfeiriad

### **ADRAN D: RHESWM**

Faint y mae'r llwybr yn debygol o gael ei ddefnyddio a pha effaith a gaiff cau'r llwybr ar y tir y mae'n ei wasanaethu?

Cais Cynllunio Rhif:

Dyddiad y bydd Gwaith yn Dechrau:


## ADRAN E: DATGANIAD

**(Dilewch y datganiad hwn os nad yw'n berthnasol) Fi/Ni sy'n berchen ar y tir sydd ag ymyl coch yn y cynllun sydd wedi ei atodi yr wyf i/yr ydym ni wedi ei lofnodi a'i ddyddio. Rydym wedi darllen a deall y canllawiau sydd wedi eu hatodi at y cais hwn ac yn cytuno i gydymffurfio gyda'r amodau canlynol mewn perthynas â'r cais hwn:**

1. Pan fo diddymu'n digwydd ar yr un pryd â chreu llwybr gwahanol:
  - a. Rhaid i unrhyw lwybr/au sydd wedi eu neilltuo fod o leiaf yr un hyd â'r llwybr y mae'n cymryd ei le.
  - b. Rhaid i'r llwybr a gynigir gael ei greu i foddhad Cyngor Sir Bro Morgannwg fel yr Awdurdod Priffyrdd.
  - c. Rhaid cytuno ar leoliad a math unrhyw glwydi, ffensys neu gelfi eraill ar y llwybr i'w neilltuo gyda'r cyngor cyn eu codi.
  - d. Bydd unrhyw waith draenio angenrheidiol yn cael ei wneud ar draul yr ymgeisydd a'i greu i safon sy'n dderbyniol gan y Cyngor Sir.
  - e. Rhaid gosod arwyddion enw a chyfeiriad y llwybr newydd mewn ffordd sy'n dderbyniol gan y Cyngor.
2. Rwyf i/Rydym ni yn deall na roddir unrhyw ganiatâd i ddiddymu Hawl Tramwy oni bai a than i Orchymyn gael ei wneud a'i gadarnhau a bod cadarnhad a hysbysiad o'i wneud wedi ei gyhoeddi a
3. chadarnhad wedi ei gyhoeddi.
4. Rwyf i/Rydym ni yn datgan nad yw'r Hawl(iau) Tramor a ddiddymir yn cael ei/eu rhwystro mewn unrhyw ffordd ac y bydd/byddant ar gael at ddefnydd y cyhoedd ac na fydd/fyddant yn cael eu rhwystro cyn i'r Gorchymyn gael ei weithredu.
5. Rwyf i/rydym ni yn cadarnhau na fydd unrhyw ran o'r Hawl Tramwy i'w diddymu yn cael ei rhwystro ar unrhyw adeg yn sgil gwaith ynghlwm wrth y Cais Cynllunio cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.
6. Rwyf i/Rydym ni yn ymwybodol y bydd y Cyngor Sir, os gwneir ac y cadarnheir gorchymyn, yn gwneud trefniadau, pan fo angen, i symud unrhyw bontydd troed neu bontydd ceffyl o'r llwybr sydd wedi ei gau.
- 7.
8. Rwyf i/rydym ni yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth a'n cred bod y manylion a roddir yn wir ac yn gywir.

Llofnod:

Dyddiad:



# Cyngor Bro Morgannwg

## Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Datblygu

### Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - Adran 257

## Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Ymgeiswyr

**PWYSIG Nid** yw rhoi Caniatâd Cynllunio, ynddo'i hun, yn rhoi caniatâd i gau na dargyfeirio hawl tramwy'r cyhoedd. **Nid** yw chwaith yn golygu y bydd cais i newid y Rhwydwaith Hawl Tramwy Cyhoeddus o anghenraid yn llwyddo. Mae rhwystro Hawl Tramwy Cyhoeddus heb gael Gorchymyn gan y Cyngor yn drosedd y gellir eich dirwyo neu erlyn amdani. Gellir hefyd symud ymaith unrhyw waith adeiladau a chi fyddai'n gyfrifol am y gost.

**Cysylltwch â'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Ffôn: 01446 704810) i gael cyngor am weithdrefnau a chostau os yw'ch cais am ganiatâd cynllunio yn effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus.**

Mae effaith datblygiad ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ystyriaeth faterol wrth benderfynu ar geisiadau caniatâd cynllunio. **Dylech felly ymgorffori manylion unrhyw newidiadau a gynnigwch yn eich cais am Ganiatâd Cynllunio.**

Os bydd angen i chi ddargyfeirio neu gau llwybr cyhoeddus dros dro er mwyn gweithio ar eich datblygiad rhaid i chi wneud cais ar wahân ar gyfer hyn i Gyngor Sir Bro Morgannwg. Bydd y Cyngor wedyn yn ystyried gwneud Gorchymyn Cyfreithiol ar gyfer y llwybr i'w ddargyfeirio neu ei rwystro dros dro. Mae ffurflenni cais ar gael gan y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Dylech wneud eich cais ar yr un pryd â'ch cais am Ganiatâd Cynllunio, gan na fyddwch yn gallu dechrau ar eich datblygiad tan i'r Gorchymyn gael ei wneud a'i gadarnhau. Dim ond ar ôl rhoi caniatâd cynllunio y gellir creu Gorchymyn ac mae'n amodol i gyfnod Gorchymyn y gellir anfon gwrthwynebiadau i'r Cyngor ynddo. Os derbynnir gwrthwynebiadau byddai'n rhaid wedi anfon y mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am benderfyniad. Mae'n bosibl y bydd manylion eich cynnig i ddargyfeirio/rhwystro dros dro yn cael ei ystyried cyn i'ch Cais Cynllunio gael ei gyflwyno.

Sylwer na fydd eich cais o anghenraid yn cael ei gymeradwyo. Disgwylir i'r ymgeisydd dalu costau sydd ynghlwm wrth brosesu cais, boed yn llwyddiannus ai peidio. Rhaid cwblhau a dychwelyd ffurflen addo talu costau a'i hatodi at y ffurflen gais.

### **CANLLAWIAU** (DS Gellir ychwanegu amodau eraill)

1. Ni ddylid cychwyn ar waith ar safle tan i unrhyw orchmynion cyfreithiol angenrheidiol i newid y rhwydwaith gael eu creu a'u cadarnhau gan y Cyngor.
2. Rhaid i lwybrau newydd a gynnigir beidio â bod yn *sylweddol* llai cyfleus i ddefnyddwyr y rhwydwaith.
3. Mae'r Cyngor yn mynnu ar led o 2 fetr o leiaf ar gyfer llwybrau troed a 3m ar gyfer llwybrau ceffyl neu'r lled llawn a oedd yno gynt ar gyfer y cyhoedd.
4. Dylid osgoi defnyddio heolydd ystâd cymaint â phosibl. Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio llwybrau ystâd drwy dir agored neu dir sydd wedi ei dirlunio i ffwrdd o draffig cerbydol.
5. Dylid ystyried materion yn ymwneud â diogelwch a hyder personol yn gysylltiedig â rhyw person ac anabledd, yn cynnwys materion yn ymwneud â namau synhwyrol,

- meddylol a chorfforol wrth ddylunio cynllun.
6. Rhaid i chi sicrhau y cedwir y llwybr cyfreithiol ar agor ac yn rhydd rhag unrhyw rwystrau tan i unrhyw ddargyfeiriad/ddiddymiad gael ei gwblhau.

(DS Mae'n bosibl y gallai Hawliau Tramwy Cyhoeddus fodoli hyd yn oed os na ddangosir hwynt ar Fap Terfynol. Gellir sicrhau hawliau cyhoeddus os bydd llwybr wedi ei ddefnyddio am gyfnod dros 20 mlynedd. Os ydych yn ymwybodol o lwybr y gellir ei fod wedi ennill hawl tramwy, dylech drin y llwybr yn yr un ffordd â llwybr sydd wedi ei gofrestru'n gyfreithiol).